**PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 13 Mai, 2021.

Mae'r Agenda ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Cynghorwyr Ms. R.M. Birch, S.J. Griffiths, T.H. Jarvie, Mrs. J.M. Norman, A.C. Parker, Mrs. S.D. Perkes, L.O. Rowlands and N.C. Thomas.

Aelod cyfetholedig: Mrs. J. Lynch-Wilson (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio).

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd Ms. R.M. Birch yn Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ebrill, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant

EITEM AGENDA 5. TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 2020/21 Y 4YDD CHWARTER AC AMSERLEN Y BLAENRAGLEN WAITH FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2021/22 (RG) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir wedi eu cwblhau yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.

(2) Nodi Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad D i'r adroddiad, yng nghyd-destun cynnwys Blaenraglen Waith Flynyddol y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant 2021/22.

(3) Nodi Blaenraglen Waith y 4ydd Chwarter sydd ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad.

(4) Cymeradwyo Blaenraglen Waith Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad E yr adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2&3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Er gwybodaeth.